Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 5ed Mis Ebrill 2023

**Presennol**
Cynghorwyr - E Lewis (Cadeirydd), F Cauley, D Jones, R Ashton, A E Davies, T P Jones, B Jones, G Davies, S Evans a Cyng, G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau** - I Edwards

Cynigiodd y Cadeirydd, Cyng Emyr Lewis, croeso cynnes i pawb a cafwyd munud o dawelwch er côf cyn-gynghorwr, Norton Owen. Penderfynwyd danfon carden o gydymdeimlad i deulu Pen y Bont

**Cyflwyniadau –** Dim

**Datganiadau diddordeb** - Dim.

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol a cynhalwyd ar 1af o mis Mawrth 2023**
**Cynnig:**
**Eilio:** Pawb yn gytun

**Materion yn codi**
1. Llefydd parcio i'r anabl ger y toiledau a'r Canolfan - Wedi ei cwbwlhau
2. Treth Busnes i'r Maes Parcio - S Reast I ofyn I David Davies (Lôn Hyfryd) am cyfeiriad at twrne am fwy o gyngor. Nid oes gan cynghorau Carno a Chaersws profiad cymharol
3. Parcio ceir ym mhentref Llan - Mae G Mitchell wedi cwrdd â trigolion y ddau dŷ sydd gerllaw. Nid ydynt am weld unrhyw newidiadau heb ymgynghoriad gyda arbenigwr perthnasol sydd yn debyg o costio o ddeutu £8,000 neu £10,000. Trafodwyd y posibilrwydd o tacluso'r gwair heb cael gwared ohonno fo i gyd er mwyn peidio dinistrio gormod o'r bywyd naturiol sydd ynddo. F Cauley i ymweld a'r trigolion gerllaw i trafod y camau nesaf gyda'r gobaith y gall y Clwb Garddio helpu
4. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - S Reast wedi ysgrifennu at Alistair i egluro'r broses o sefydlu cytundeb cyfreithlon gyda Cyngor Sir Powys a fod hi'n iawn i'r defaid aros ar y cae tan fydd angen ei glirio cyn y Sioe. Mae G Mitchell a S Reast wedi cwrdd a David Thompson ar y cae ac wedi gwneud cynllyn clir o'r anghenion. Fydd angen arolwg ar y coed o gwmpas yr ymylon ar frys – Powys i neud hwn ond fydd costau cwympo a clirio coed yn mynd i'r ysgol. Trafdwyd y posibiliadau o cymorth ariannol gan y Cyngor .
5. Angen lloches bws yn Nolfach - Mae'r lloches newydd wedi cael ei osod ar yr ochr Dwyreinol ond mae rhai trigolion yn anfodlon gan ei fod yn rhy fach i ymddifyn defnywwyr rhag y tywydd a'r gwlychder o'r ffordd. S Reast I ysgrifennu at Traws Cambria i gofyn iddyn nhw am un fwy ar yr ochr arall
6. Cynnig ail agor y gorsaf rheilffordd yn Llanbrynmair - Dim diweddariad
7. Cyflysterau cyhoeddus - Dim Diweddariad. S Reast I trafod y 'motion sensors' gyda Becky Rowlands eto
8. Hysbysfyrdd - Dydy adeiladu hysbysfwrdd allan o ffenest blastig ddim yn mynd i weithio os nad oes fframau brown ar gael. Penderfynwyd mynd ymlaen gyda'r cynllyn gwreiddiol o adnewyddu gan cadw llygaid ar fframau plastig hefyd

9. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Bydd angen symud y bin grit wrth hysbyfwrdd Bont er mwyn lleoli'r diffibrilwr gerllaw. I Edwards i gydlynu
10. Angen sylw i'r "crash barrier" yn y Maes Parcio - Bydd y gwaith yn cael ei wneud dros y gwyliau Pasg
11. Cyflwr Maes Carafannau Gwern-y-bwlch - Mae hanner y Gwaith o tocio'r coed wedi ei cwbwlhau ond mae yna ddadl am pwy sydd bia gweddill y coed i'w ddatrus cyn mynd ymlaen
12. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae'r swings newydd wedi cyrraedd a B Jones wedi gwirfoddoli i'w osod nhw
13. Cynllyn hyfforddi ac adroddiad blynyddol – R Ashton yn anog pawb i wneud yr hyfforddiant 'Code of Conduct' gan ei fod mor bwysig a defnyddiol. Rhaid mynd at 'Planning Aid Wales' er mwyn trefnu hyfforddiant ynglyn a materion cynllunio
14. Gwrych pob ochr i Tyrpeg yn Nhalerddig – Dim diweddariad
15. Gwifren BT ar lawr wrth croesfan Bont – Dim diweddariad
16. Shetyn wrth Pont Bel – Credwyd nad ydy'r gwaith a disgwylyr wedi ei gwneud. S Reast i gwneud ymholiadau
17. Troi ffordd Pandy yn Bont yn 'un ffordd yn unig' – Cytynwyd i ystyried archeb arwyddion "Araf" ar ddau pen y ffordd fach yn hytrach nag aros i'r Cyngor Sir eu cytuno
18. Nwyddau i'r toiledau cyhoeddus – Mae Tony Evans wedi cadarnhau nad ydy'r cwmni 'Janitorial Supplies' yn gwerthu offer i ddal papur toiled er mwyn sicrhau bod o ddim yn cael ei ddwyn. S Reast i chwilio am rhai eraill
19. Golau yn Llan – Cytynwyd i ofyn am yr olau oedd arfer bod ar talcen adeiliad yr hen siop cael ei adnewyddu. Cadarnhawyd fod trigolion gerllaw wedi gofyn amdano. Mae'n bosib gofyn am cyfyngu oriau goleuo er mwyn cadw rhai oriau'r nôs yn dywyll
20. Enwi safle'r tai Newydd wrth Bryncoch – Daeth y cynnig o 'Pen y Bryncoch' gan Cyngor Sir Powys ond penderfynnodd y cynghorwyr fod 'Cae Bryncoch' yn fwy addas i pobol lleol
21. Biniau baw cŵn – R Ashton i ofyn o le mae nhw'n dod
22. Cyfarfod blynyddol – Cadarnhawyd y fydd materion arferol yn cael ei gohirio yn y Cyfarfod nesaf er mwyn canolbwyntio ar y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
23. Carthion yn yr afonydd – S Reast i ysgrifennu llythyr i Dŵr Cymru
24. "Concealed entrance", Maes yr Efail – S Reast i'w drafod gyda'r trigolion gerllaw
25. Ymylon y ffordd yn Bont – Mae'r ymylon yn feddal ac yn peri baw a thrafferthion wrth i ceir fynd drostynt. Mae'r ceir wedi parcio ty allan Ty'n Llwyn yn achosi rhwystr
26. Iard y Cyngor – Mae'r gweithwyr sydd yn defnyddio'r iard yn siomedig bod y Cyngor Sir heb trafod cynllyniau ar gyfer y iard efo nhw cyn i'r cyhoedd cael gwybod. Mae ganddynt amheuon am sut fydd ei gwaith nhw yn cael ei effeithio o achos y newidiadau
27. Tender i torri gwair yn y cae chwarae – Cafwyd dau tender, roedd un Andrew Evans Landscaping yn llawer rhatach felly penderfynwyd rhoi y contract iddynt am flwyddyn cyn ei arolygu

**Materion ffyrdd**

- Mae yna goleuadau traffig wrth Talerddig oherwydd tir sydd wedi llithro rhwng y ffordd a'r afon. Fydd gwaith yn cychwyn yn Gorffenaf
- Mae'r gwaith ar y ffordd wrth Brook yn aros i Open Reach symud y gwifrau ac i'r cwmni dŵr symud pibellu ac mae'r contractwyr, Coyles, rwan yn gweithio ym Machynlleth

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**

**Gohebiaeth**

- Ymgynghoriad ynglyn ag afancod yng nghefn gwlad gan brifysgol Exeter
- Ymgynghoriad gan Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar leoliad ysbytu gofal brys
- Diweddariad gan Ymddiriedolaeth Ysbyty Amwythig a Telford ynglyn a "Hospital Transformation Programme"
- Ymgynghoriad rhwng Fforwm Cleifion Bro Ddyfi a datblygiad yr Ysbyty Newydd yn Machynlleth
- Diweddariad ynglyn a trefniadau symud y ganolfan iechyd i'r ysbyty newydd
- Llythyr o ddiolch gan Cruse Breavement Support
- Defnydd o'r hysbysfwrdd Newydd – Mae'r goriad gyda'r Clerc. Fydd un hanner yn cael ei defnyddio ar gyfer materion y Cyngor yn unig

**Cynllunio**

**'**Proposed Base Installation at CS307081 – Southern Forest Location, Llanbrynmair, SY20 9HS' – er wybodaeth yn unig

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar y 2ail Mis Ebrill 2023

| | |
|---|---|
| Cyfrif cyfredol | £9,349.92 |
| Cyfrif cadw | £2,870.80 |
| Cyfanswm | £12,220.72 |
| Sieciau heb ei cyflwyno | £1,370.38 |
| Balans ar gael | £10,850.34 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| **Dyddiad cytunwyd** | **Eitem** | **Cyfanswm** | **Rhif y cheque** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| 05/04/23 | Gwasanaethau Arfon Hughes | £100.00 | | |
| 05/04/23 | Hafren Dyfrdwy – yn cynnwys biliau hanesyddol | £5872.22 | | Cytynwyd talu'r cyfanswm mewn dau rhan trwy ebost gan R Ashton, F Cauley, I Edwards, T P Jones, E Lewis, G Davies a S Evans |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 05/04/23 | Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen | £100.00 | | |
| 05/04/23 | DRE & Co. Prosesu trefniadau PAYE | £96.00 | | |
| 05/04/23 | Hyfforddiant Cynghorwyr gan Un Llais Cymru | £52.50 | | |
| 05/04/23 | Cyflog y Clerc | £368.00 | | |
| 01/02/23 | Treth a NI ar cyflog y Clerc | £92.00 | | |
| 05/04/23 | Adnewyddu 'Domain name' y wefan, Go Daddy | £372.02 | | |

**Unrhyw fater arall –** Trafodwyd y mater o carafannau'n aros yn y maes parcio a'r posibilrwydd o rhoi arwyddion i fyny i atal hyn rhag digwydd. S Reast i edrych mewn i'r opsiynnau.

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- G Davies – Coed o flaen Blaencwm – nunlle i dyny mewn
- R Ashton – Cerrig gwyn wrth ymyl Ffordd Pandy
- D Jones – Llinellau gwyn wrth Yr Efail a Bryncoch
- B Jones – Torri gwair rhwng Wynnstay a'r ffarm
- 

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 3ydd mis Mai 2023**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 7fed mis Mehefin 2023**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair